# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09.00 - 11.01** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2607**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Matthew Mortlock, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Simon Higgins, Road Haulage Association Ltd**<br>**Malcolm Bingham, Freight Transport Association** |
| Staff y Pwyllgor: | **Leanne Hatcher (Ail Clerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**<br>**Andrew Minnis (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gadarnhau nifer y staff sydd wedi eu recriwtio, i ystyried achosion ôl-weithredol ac i reoli llwyth achosion parhaus.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

4.1 Darparodd Swyddfa Archwilio Cymru a Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr Aelodau gyda diweddariad ar yr ymgynghoriad a'r dull ymholi amlinellol.

## 5 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Road Haulage Association Ltd a Freight Transport Association ar ei ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd.

## 6 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Trafod y dystiolaeth:

6.2 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6.3 Cytunodd y Pwyllgor:

- i ofyn am ffigyrau ar lefelau staffio a gwybodaeth yn ymwneud â rheoli traffig a threfniadau gwydnwch gan Asiantau Cefnffyrdd;
- gofyn am wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ar gynlluniau cefnffyrdd mawr sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, ei ddull o flaenoriaethu cynlluniau yn y dyfodol, a mwy o fanylion am wariant Asiantau Cefnffyrdd, rhaglenni gwaith a chyllidebau yn y dyfodol;
- ysgrifennu at Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) i ofyn am wybodaeth am reoli digwyddiadau a defnyddio sgriniau; ac

- ysgrifennu at Highways England i ofyn am wybodaeth am ei ddull o gynnal a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn Lloegr, gan gynnwys manteision disgwyliedig y strwythur a'r dull gweithredu newydd, a sut y bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd cyllid.

6.4 Cytunodd y Gwasanaeth Ymchwil i ddarparu eglurhad ar goridorau'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yng Nghymru a'r DU a gwybodaeth am Highways England.

## 7 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor lythyr oddi wrth yr Athro June Andrews a Mark Butler, a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu i fynegi awydd y Pwyllgor iddi ddod i gyfarfod yn y dyfodol.